Dŵr Cymru
Welsh Water

# Rydyn ni'n gosod mesuryddion dŵr

---

Gwella effeithlonrwydd dŵr i greu dyfodol cynaliadwy



# Pam fod mesuryddion dŵr yn bwysig

Mae mesuryddion dŵr yn chwarae rhan annatod wrth ein helpu ni i reoli ein rhwydwaith yn fwy effeithlon. Trwy uwchraddio a gosod mesuryddion, gallwn ganfod a lleihau gollyngiadau'n fwy effeithlon, gan ein helpu ni i arbed dŵr a pharatoi ar gyfer twf yn y galw yn sgil twf y boblogaeth a newid hinsawdd.

Mae pob diferyn yn lleddfu'r pwysau ar yr amgylchedd, yn lleihau allyriannau carbon, ac yn helpu i greu afonydd ac ecosystemau mwy iach. Trwy osod mesuryddion, rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws canfod gwastraff, trwsio gollyngiadau a hybu defnydd mwy clyfar o ddŵr ar draws ein cymunedau. Cam syml yw hwn, ond mae'n gwneud gwahaniaeth mawr – i'n cartrefi, ein hamgylchedd a'n dyfodol.




# Beth mae angen i chi ei wybod

Mae gwaith i osod neu uwchraddio mesuryddion yn cael ei gyflawni ar ein pibellwaith ni, y tu allan i'r eiddo fel rheol. Mae hi'n broses gyflym a digon syml ar y cyfan, a dim ond toriad byr fydd yn eich cyflenwad dŵr.

Ni fydd ein dull o filio cwsmeriaid yn newid. Os nad oes mesurydd gennych, ni fydd eich taliadau'n newid. Ni fydd unrhyw effaith ar gwsmeriaid â mesuryddion, na'r holl gwsmeriaid â chynlluniau talu fel HelpU a WaterSure Cymru.

Rydyn ni'n gosod y mesuryddion dŵr fesul ardal, felly bydd rhai ardaloedd yn ein gweld ni'n gynt nag eraill er mwyn helpu i gadw'r gwaith yn ddidrafferth a lleihau unrhyw anghyfleustra.

Dŵr Cymru sy'n berchen ar y mesurydd, y pibellau a'r stoptap allanol ac yn eu cynnal. Mae hynny'n golygu bod gennym hawl gyfreithiol i osod mesuryddion at ddibenion monitro gollyngiadau ac i gyrraedd atynt i'w cynnal wedyn.



# Manteision cael mesurydd dŵr

Hyd yn oed os nad yw'r dull o'ch bilio'n newid, mae nifer o fuddion o gael mesurydd dŵr. Cewch weld eich defnydd o ddŵr a phenderfynu pa ddull o filio sydd orau i chi. Mae llawer o gwsmeriaid yn gweld bod hyn yn helpu i arbed arian iddynt, ac yn eu cynorthwyo i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon hefyd.

Mae mesuryddion yn ein cynorthwyo ni i ddod o hyd i ollyngiadau'n gynnar, gan atal difrod costus a gwneud ein gwasanaeth yn fwy dibynadwy.

Mae gwaith gosod yn dibynnu ar oedran eich mesurydd, neu a oes yna un bibell gyflenwi, felly ni fyddwn ni'n ymweld â phob eiddo — nac yn ymweld yr un pryd. Gallai rhai gosodiadau fod yn fwy cymhleth oherwydd trefn y pibellwaith. Byddwn ni'n teilwra ein dull o weithredu ac yn rhannu'r manylion â chi ar bob cam o'r ffordd.



# Newid â hyder

Os dewiswch chi newid i filiau mesuredig, cewch ddwy flynedd i benderfynu ai dyna yw'r dewis gorau i chi. Os nad ydych chi'n gweld yr arbedion roeddech wedi gobeithio eu gweld, gallwch newid nôl i'ch taliadau anfesuredig — dim problem.

Mae newid i filio mesuredig yn gyflym ac yn hwylus. Cysylltwch â ni — ac fe wnawn ni'r cyfan i chi.

**Gosod am ddim**
Os nad oes mesurydd gennych, fe osodwn ni un i chi am ddim.

**Bilio teg**
Byddwch chi'n talu am y dŵr rydych chi'n ei ddefnyddio yn unig.

**Gwybodaeth ddefnyddiol**
Traciwch eich defnydd a chanfod gollyngiadau'n gynnar.

**Cymorth cyfeillgar**
Byddwn ni'n eich helpu chi i gymharu costau a phenderfynu beth sydd orau.

Ewch i'n gwefan **dwrcymru.com/mesurydd-dwr** neu Ffoniwch ni ar **0800 052 0152** i gychwyn arni.



# Cwestiynau cyffredin

**Beth sy'n digwydd ar ôl gosod mesurydd?**
Fe welwch eich defnydd ar eich bil, ond peidiwch â phoeni – ni fydd eich dull talu'n newid oni bai eich bod chi wedi gofyn i ni ei newid.

**Sut bydd gosod mesuryddion yn helpu i leihau gollyngiadau?**
Mae gosod mesuryddion yn helpu i ganfod defnydd anarferol o ddŵr, fel llif parhaus dros nos. Mae hynny'n ein helpu ni i ganfod a thrwsio problemau'n gynt.

**Pam na chafodd fy eiddo ei ddewis?**
Mae gosod mesuryddion yn seiliedig ar feini prawf penodol, fel oedran y mesurydd a'r math o bibell gyflenwi – nid dim ond y lleoliad.

**A fydd fy mil yn newid yn awtomatig?**
Na fydd. Dim ond os dewiswch chi newid i daliadau mesuredig y bydd eich biliau'n newid.

Os oes mesurydd dŵr gennych, cewch gymharu eich taliadau cyfredol â'ch biliau mesuredig posibl. Mewngofnodwch neu cofrestrwch ar gyfer Fy Nghyfrif i gael rhagor o fanylion
**dwrcymru.com/fynghyfrif**



# Arbedwch ddŵr, ynni ac arian

Bwciwch Ymweliad Cartref Effeithlonrwydd Dŵr gydag un o'n hymgynghorwyr cyfeillgar. Byddwn ni'n gosod dyfeisiau arbed dŵr am ddim i chi ac yn rhannu awgrymiadau syml i'ch helpu chi i leihau eich biliau dŵr ac ynni. Mae'r ymweliadau'n gyflym, yn ddidrafferth ac ar gael i holl gwsmeriaid Dŵr Cymru.

**Am hepgor yr ymweliad?**
Gallwch archebu dyfeisiau arbed dŵr am ddim a dod hyd i gynghorion ar ein tudalen **dwrcymru.com/ffitrwydddwr**

**Toiled yn gollwng?**
Gallai toiled sy'n diferu wastraffu cymaint â 215 litr y dydd! Os gwelwch chi ddŵr yn gollwng, sganiwch y cod QR neu cysylltwch â ni yn **cartref@dwrcymru.com** neu **0800 052 130** – byddwn ni'n adolygu eich fideo ac yn trefnu gwaith trwsio am ddim i chi.

